# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*

***05 Hydref 2010***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1 – <u>Mordwyo ac Angorfeydd</u>***

***1.1*** Yn unol â'r gofynion statudol, ac i gydymffurfio â disgwyliad y cyhoedd a'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd, archwiliwyd yr holl Gymhorthion Mordwyo sy'n arwain i Harbwr Abermaw gan swyddog o Dŷ'r Drindod ar y 21ain Medi 2010. Mae'r swyddog wedi adrodd yn ddechreuol fod yr holl Gymhorthion Mordwyo yn Abermaw, ac eithrio marc y Glwyd mewn cyflwr derbyniol. Ar hyn o bryd mae llusern marc y Glwyd wedi ei diffodd ac mae Hysbysiad lleol i forwyr yn weithredol. Yn y dyfodol agos iawn fe ragwelir y bydd angen gosod Cymhorthydd Mordwyo dros dro yn y sianel hyd nes fo penderfyniad wedi ei wneud am ddyfodol marc y Glwyd. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddog Morwrol, Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn ymchwilio beth yw'r posibiliadau yn y dyfodol.

***1.2*** Er i ni gael tywydd garw ar rai dyddiau yn ystod tymor yr haf mae'r holl gymhorthion mordwyo wedi aros yn eu lle yn gyson yn ystod y tymor. Bydd angen cwblhau'r gwaith cynnal a chadw ar yr holl gymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref a'r gaeaf a bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau wedi paratoi rhaglen gynhwysfawr i gynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo am y cyfnod yma. Os yw'r tywydd yn caniatáu, disgwylir i'r holl waith cynnal a chadw gael ei gwblhau cyn y Nadolig. Bydd yr holl Gymhorthion Mordwyo yn dod i'r lan gan y contractwr enwebedig a bydd yr holl systemau angori hefyd yn cael eu harchwilio ganddo.

***1.3*** Er yr ymdrechion i gynnal a chadw golau'r Glwyd a lleihau'r gwaith cynnal a chadw cyffredinol a'r costau newid mae cyflwr cymhorthydd y Glwyd wedi dirywio ymhellach yn ystod misoedd yr haf. Er gwaethaf cyflwr gwael y cymhorthydd mordwyo, mae'r system angor dros dro sydd ar hyn o bryd yn sicrhau'r Glwyd wedi gwrthsefyll y tywydd garw a brofwyd yn ystod yr haf. Daethpwyd o hyd i ychydig o arian yng nghyllideb bresennol yr Uned Forwrol er mwyn gosod bwi dros dro yn y sianel. Mae gwneuthurwr cymwys wedi ymweld â'r safle i archwilio'r Glwyd ac rydym yn aros am gynigion i'w newid. Yn ogystal, gofynnwyd hefyd am adroddiadau peirianneg strwythurol.

***1.4*** Archwiliwyd yr angorfeydd a ddyrennir i gychod sy'n ymweld â'r holl angorfeydd parhaol ym mherchnogaeth y Cyngor a'u cynnal a'u cadw cyn dechrau'r tymor. Gosodwyd bwiau parth atal cychod a marcwyr bwi cyfyngu cyflymder ar draethau gwobrwyedig Abermaw a Fairbourne ac fe gwblhawyd y gwaith gan staff yr harbwr. Gan fod y marcwyr parth cyflymder unwaith eto wedi eu gosod gan staff y Cyngor nid oedd costau ychwanegol oedd angen dod o hyd iddo i dalu am wasanaeth contractwr. Unwaith eto, bydd yr holl angorfeydd sydd o dan awdurdod harbwr Abermaw yn cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw gan y contractwr a benodwyd ac fe ddisgwylir y bydd y gwaith yn dechrau yn Ionawr 2011. Bydd copi manwl o gofnod y gwasanaeth angorfeydd yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r pwyllgor yn y cyfarfod.

***1.5*** Yn ystod misoedd y gaeaf, bydd yr Harbwr feistr a'r Swyddog Morwrol-Harbyrau yn cydlynu'r gwaith o archwilio a chynnal a chadw angorfeydd harbwr yn barod ar gyfer 2011. Bydd y contractwr yn parhau i archwilio'r angorfeydd yn yr harbwr ac os na ddefnyddiwyd angorfa yn ystod 2010, yna bydd perchennog yr angorfa yn derbyn cyfarwyddiadau clir i glirio'r safle. Os nad yw perchennog yr angorfa wedi ei adnabod cyn diwedd mis Rhagfyr 2010 yna fe fydd staff yr harbwr yn rhoi cyfarwyddyd i'r contractwr i symud yr angorfa.

Mae lleoliad y Cymhorthion Mordwyo Abermaw fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| *Bwi Sianel Fordwyo* | *52° 42.72' N* | *004° 04.91' W* |
| *Bwi Bar* | *52° 42.56' N* | *004° 04.33' W* |
| *Bwi Can Rhif 2* | *52° 42.57' N* | *004° 04.14' W* |
| *Bwi Can Mewnol* | *52° 42.64' N* | *004° 03.94' W* |
| *Bwi Arllwysfa* | *52° 43.19' N* | *004° 05.35' W* |

Roedd y gost o gynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo ac i wasanaethu angorfeydd y Cyngor yn Abermaw cyn dechrau'r tymor yn £3,485.

***2 – Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr***

***2.1*** Yn 2010 cyflwynodd yr Uned Forwrol bedair 'Trwydded Perchennog' a saith 'Trwydded Cychwr' ar gyfer gwasanaeth fferi rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn. Fel ag yn 2009 dim ond un Trwydded Cychwr a gyflwynwyd i fferi yn gweithredu yn harbwr Aberdyfi. Mae ardal y ddau harbwr wedi eu diffinio fel Dyfroedd wedi eu Categoreiddio o dan MSN-1776 (Hysbysiad Cychod Masnachol)

***2.2*** Yn flaenorol mae aelodau'r Pwyllgor wedi mynegi pryder am lefel y cymwysterau a'r profiad sydd ei angen i forwr ddal Trwydded Cychwr ac fe awgrymwyd gan yr Aelodau bod yr Uned Forwrol yn ymchwilio ymhellach i sicrhau fod y sail dros gyflwyno Trwydded Cychwr yn glir ac yn ddiamwys. Roedd gofyniad hefyd i'r Uned Forwrol sicrhau bod y gofyniad o ran cyflwyno 'Trwydded Perchennog' hefyd yn glir.

Trafodwyd pryderon y Pwyllgor yn helaeth gyda'r Syrfëwr Morwrol yn ystod gwanwyn 2010 a dywedwyd yn bendant y dylai nifer y teithwyr oedd i'w cludo ar gwch trwyddedig gael ei nodi'n glir ar y Drwydded a hefyd ar y ffurflen arolwg sydd i'w chwblhau gan y syrfëwr morwrol. Roedd hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw amwysedd am nifer y teithwyr a ganiatawyd gan y syrfëwr i'w cludo ar fwrdd y cwch. Roedd hefyd yn gwneud yn glir fod angen cysondeb o ran y math o offer diogelwch oedd yn ofynnol i fod ar fwrdd y fferi a bod yr offer yma'n cael ei archwilio gan y syrfëwr morwrol yn ogystal â'r angen i'r offer fod ar gael bob amser ar fwrdd y cwch.

***2.3*** Seiliwyd y diffiniad o 'Dywydd Ffafriol' ar y datganiad isod sydd yng Nghod Ymarfer yr MCA i gychod masnachol:-

***'Favourable Weather' means wind, sea and visibility conditions which are deemed by the skipper to be safe for a small vessel to operate within the limits applied to it; or, in any other case means conditions throughout a voyage or excursion in which the effects either individually or in combination of swell, height of waves, strength of wind and visibility cause no hasard to the safety of the vessel, including handling ability.***

***In making a judgement on favourable weather, the skipper should have due regard to official weather forecasts for the service area of the vessel or to weather information for the area which may be available from the MCA or other coastal safety organisations or Harbour Authority.***

Fel a nodwyd yn y datganiad uchod a gyflwynwyd gan yr MCA a Phwyllgor yr YDSA (Cymdeithas Dylunwyr a Syrfewyr Cychod Hwylio) sydd hefyd wedi eu hawdurdodi gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, mae hi'n eglur fod meistr y cwch yn gyfrifol am wneud penderfyniad os yw cyflwr y tywydd pan fwriedir teithio yn ddiogel i'r cwch fwrw ymlaen ar y daith. Mae diogelwch teithwyr o'r pwysigrwydd pennaf a dylai pob Capten fod yn sicr fod cyflwr y tywydd ar y pryd yn ffafriol i'r daith sydd i'w chymryd.

***2.4*** Mae'r cyfnod pan fo gwasanaeth fferi yn gallu cael ei gynnal wedi ei gyfyngu i oriau golau dydd yn unig; un awr cyn codiad haul ac un awr ar ôl machlud. Nid yw gweithredu cwch trwyddedig y tu allan i'r oriau yma wedi ei awdurdodi gan y drwydded ac felly ni chaniateir hyn.

***2.5*** Mae copi o'r Trwyddedau Perchnogion presennol a'r rhestr gyfredol o Offer Diogelwch yn atodol i'r adroddiad a gofynnir am farn yr Aelodau am eiriad y drwydded ddiwygiedig a'r rhestr offer ddiwygiedig a ddefnyddir yn 2011. Bydd angen parhau i arddangos y dogfennau hyn ar fwrdd cwch trwyddedig bob amser pan fo'n weithredol yn y dyfroedd wedi eu categoreiddio.

***2.6*** Yn ystod cyfnod y drwydded bresennol, a ddaw i ben ar 31ain Hydref 2010, cyflwynwyd sawl honiad i'r Uned Forwrol fod cychod yn cael eu llywio heb sylw dyledus i forwriaeth dda. Ystyriwyd fod yr honiadau hyn yn ddifrifol iawn ac archwiliwyd bob un.

***2.7*** Ar y 27ain Awst 2010 cafodd y mater ei drafod yn helaeth gyda swyddog rhanbarth Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Cadarnhaodd y swyddog fod yr holl gychod a drwyddedwyd gan Gyngor Gwynedd drwy rinwedd Deddf Newidiadau Deddfau Iechyd y Cyhoedd yn cydymffurfio gyda thelerau'r Drwydded ac fe welwyd fod pob cwch yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Rhyngwladol i Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr (ColRegs). Nid oedd y Swyddog MCA wedi gweld unrhyw gwch yn gweithredu mewn modd a fyddai'n peri pryder.

***2.8*** Fel a nodwyd uchod, mae'r Uned Forwrol wedi cyflwyno saith 'Trwydded Cychwr' am y cyfnod trwyddedu presennol. Cyflwynir trwyddedau i'r ymgeiswyr hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf cymwysterau. Fe fydd yr Aelodau yn sylwi ar y ffurflen gais ddrafft am 2011 sy'n atodol a bod angen cyflwyno'r dystiolaeth a ganlyn:-

- Tystysgrif Cwch Pŵer RYA Lefel 2 (lleiafswm) gyda thystiolaeth log 12 mis o brofiad perthnasol
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys
- Trwydded VHF Gyfyngedig
- Tystysgrif Goroesi ar y Môr
- Tystysgrif MCA ML5 Ffitrwydd Meddygol (wedi ei haddasu i drwydded leol)

Y bwriad yw bod y Cyngor yn cyflwyno ffurflen gais ddiwygiedig sy'n cyfateb i'r un MCA ML5 gan na fydd angen cyflwyno'r ffurflen orffenedig i'r MCA/RYA.

I'r rhai hynny na fedrant ddarparu tystiolaeth log, yna fe fydd yr Uned Forwrol yn cynnal asesiad annibynnol o fedrusrwydd yr ymgeisydd.

***2.8*** Yn ystod rhan gyntaf 2010 gwahoddodd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau bartïon oedd â diddordeb i roi sylwadau am eu gwaith ymchwil i'r Trwyddedau Cychwyr presennol. Ymatebodd yr Uned Forwrol i'r bwriad a bydd copi llawn o'r ymatebion yn cael eu dosbarthu i Aelodau yn y cyfarfod. Rhagwelir y bydd yr aelodau yn gallu darparu adborth ar y bwriad yn uniongyrchol i'r Uned Forwrol. Rydym yn rhagweld y bydd yr MCA yn ystyried cyflwyno Trwydded Cychwr newydd Lefel Dau yn y dyfodol agos.

***3 – <u>Ystadegau'r Harbwr</u>***

***3.1*** Fel a nodir yn y tabl yn yr atodiad, cofrestrodd **965** o Fadau Dŵr Personol gyda Chyngor Gwynedd yn 2010. Mae hyn yn cymharu gyda **892 am yr un cyfnod** yn 2009, cynnydd o **73** yn 2010. Cofrestrodd **1389** o gychod pŵer gyda Chyngor Gwynedd gyda mwyafrif y cychod, cyfanswm o **714** yn cofrestru drwy ohebiaeth uniongyrchol gyda'r Swyddfa Forwrol.

***3.2*** Fel a welir yn y tabl cofrestrodd **112** o Gychod Pŵer a **82** o Fadau Dŵr Personol yn harbwr Abermaw gyda **16** o gychod pŵer a **17** o Fadau Dŵr Personol yn cofrestru gyda'r parc gwyliau. Mae'r ffi cofrestru ar gyfer cychod pŵer a badau dŵr personol yr un fath â'r llynedd, heb gynnydd ar gyfer chwyddiant blynyddol. Arhosodd y ffioedd cofrestru yn **£15.00** ar gyfer cais drwy'r post, neu gallai'r ymgeisydd gofrestru ar y traeth yn uniongyrchol am ffi uwch o **£20.00.** Erys y ffioedd lansio yn

***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor. Gan gofio'r cynnydd mewn TAW yn 2011, rhagwelir y bydd yn rhaid cynyddu'r ffioedd er ni fydd hyn yn effeithio ar incwm net Cyngor Gwynedd.

***3.3*** Yn y tabl yn yr atodiad fe welir fod **99** o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni a bod hyn yn cymharu gyda **102** yn 2009. Mae hyn yn golygu fod **80%** o'r angorfeydd yn cael eu defnyddio yn 2010, gostyngiad bychan o'i gymharu gyda 2009. O'r angorfeydd a ddefnyddiwyd roedd **44%** yn cael eu defnyddio gan drigolion lleol sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol ac roedd **56%** yn cael eu defnyddio gan unigolion sy'n byw tu allan i'r sir.

***3.4*** Er y gostyngiad y nifer y cychod sy'n defnyddio angorfa, mae hi'n braf nodi fod hyd cyffredinol cychod yn Abermaw wedi cynyddu ychydig yn 2010. Mae hyn yn dangos fod hyd cyffredinol cychod ar gyfartaledd yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn dueddiad sydd yn gyffredin mewn mannau eraill.

## ***4.0 Cyllidebau'r Harbwr***

***4.1*** Yn atodol, er gwybodaeth yr Aelodau, mae adroddiad cyllideb derfynol yr harbwr am y flwyddyn ariannol **2009/10**, a hefyd y sefyllfa ariannol hyd at 31ain Awst 2010 ynghyd â chyllideb gwariant yr harbyrau a thargedau incwm am **2010/11.** Bydd yr Aelodau hefyd yn nodi bod ychydig o orwariant o ***£7,187*** yn Abermaw yn 2009/10. Roedd cyfanswm y diffyg (gorwariant) i'r harbwr yn **£19,412.**

***4.2*** Oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ystod prif fis yr haf sef mis Awst eleni, mai'n debygol iawn na fydd penawdau incwm yr Uned Forwrol yn cyrraedd eu targed incwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd angen bod yn hynod wyliadwrus yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn rhwymo mwy o arian na'r hyn sydd yn y gyllideb. Bydd yr Harbwr feistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn darparu rhaglen gynnal a chadw fanwl ar gyfer tymor yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Abermaw am weddill 2010/11.

***4.3*** Unwaith eto yn y flwyddyn ariannol hon mae pryderon am y targed incwm i harbwr Abermaw Bydd aelodau'n nodi y dengys yr atodiadau mai **£51,600** yw'r targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Hyd yn hyn, mae incwm harbwr Abermaw wedi cyrraedd **£30,957**, sef diffyg o **£20,642** o dan y targed. Ni ragwelir y bydd yna ychwanegiad sylweddol i'r incwm rhwng mis Hydref a mis Mawrth 2011 heblaw am ffioedd storio yn y gaeaf a ffioedd y lloc.

## ***5 Tymestl Arw mis Gorffennaf 2010***

***5.1*** Yn ystod nos ac yn gynnar ar fore dydd Iau'r 15 a dydd Gwener y 16 o Orffennaf 2010, bu i dymestl arw daro harbyrau a thraethau Gwynedd. Cofnodwyd cyflymder gwynt o hyd at 87 milltir yr awr yn Abermaw ac yn Aberdaron yn ystod oriau mân 16 Gorffennaf ac amcangyfrifir bod cyflymder y gwynt yn harbwr mewnol Abermaw (yn ogystal ag yn harbwr Porthmadog) wedi cyrraedd grym 10 ar raddfa beaufort. Roedd hon yn dymestl eithriadol, ac er bod y gwynt yn gryf, nid oedd wedi'i ddarogan er bod rhybudd o wynt cryf mewn grym.

***5.2*** Rhybuddiwyd staff yr Uned Forwrol gan yr Asiantaeth Môr a Gwylwyr y Glannau a'u galw i ddod i Borthmadog am hanner nos ac roedd staff hefyd yn harbwr Abermaw am tua 07.00 o'r gloch. Yn harbwr Porthmadog roedd y staff yno cyn 01.00 yn ogystal â chriw Bad Achub Cricieth ac aelodau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.

***5.3*** Aeth staff harbwr Porthmadog ati i ddelio gyda nifer o gychod oedd wedi symud o'u hangorfeydd ac achoswyd ychydig o niwed i nifer o gychod. Gofynnwyd am ragor o gymorth gan y darparwr gwasanaeth angorfeydd ac fe gafwyd cymorth gan glientau'r harbwr i adfer cychod.

## ***6.0 Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr***

***6.1*** Cyflwynwyd cais i Gyngor Gwynedd gan Gyngor Cymuned Aberdyfi yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried cyflwyno un cyfarfod arall o'r Pwyllgor Harbwr i'r calendr o holl bwyllgorau'r Cyngor, sydd wedi'u rhaglennu'n barod. Gofynna Cyngor Cymuned Aberdyfi i'r cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor harbwr fod yn gyfarfod ar y cyd o gynrychiolwyr pob Pwyllgor Harbwr ac iddo gael ei gynnal ar amser hanner ffordd rhwng y Pwyllgorau a raglennwyd yn barod, un ai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr.

***6.2*** Atgoffir aelodau bod cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Harbwr eraill yn aelodau cyfetholedig o bob un o'r Pwyllgorau Harbwr yn barod, ac y cyflwynwyd y cynllun hwn gan yr Uned Forwrol a pharciau Gwledig er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth sy'n berthnasol i bob harbwr yn cael ei rhannu rhwng y Pwyllgorau. Gwahoddir cynrychiolwyr o Bwyllgorau Harbwr eraill i fynychu gyda'r bwriad o raeadru'r wybodaeth yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Harbwr hynny y maent yn eu cynrychioli.

***6.3*** Gofynnir am safbwynt yr Aelodau o ran cynnig Cyngor Cymuned Aberdyfi i sefydlu cyfarfod ar y cyd o'r holl Bwyllgorau Harbwr yn ychwanegol i'r cyfarfodydd presennol o'r Pwyllgor Harbwr a gynhelir pob chwe mis. Barn yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yw bod y system bresennol yn gweithredu yn unol â'r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi i Aelodau dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar God Diogelwch Morol Porthladdoedd yr harbwr perthnasol.

***7 - Digwyddiadau***

***7.1*** Ar y 19eg o Fehefin cychwynnodd ras fawreddog y Tri Chopa o harbwr Abermaw. Bu deg ar hugain o gychod yn cystadlu eleni ac roedd hyn yn dangos fod poblogrwydd y ras yn cynyddu. Ar ddechrau'r tymor ymrwymwyd rhagor o arian tuag at wella offer yr angorfeydd a ddefnyddiwyd gan gychod Ras y Tri Chopa. Cynhelir y ras nesaf ar 25ain Mehefin 2011 ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Phwyllgor y Ras unwaith eto.

***7.2*** Cyrhaeddodd ansawdd y dŵr ymdrochi yn 2009 y Safon Canllaw gofynnol ac felly oherwydd safon uchel rheolaeth y traeth a'r cyfleusterau lleol, cafodd y traeth Wobr Rhyngwladol y Faner Las yn 2010. Mae ansawdd y dŵr ymdrochi traeth Abermaw yn 2010 i'w weld yn addawol hyd yma ond fe fydd yn rhaid i ni aros hyd nes fo'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi cyn y gellir dadansoddi ansawdd y dŵr ymdrochi am 2010.

***7.3*** Os yw ansawdd y dŵr ymdrochi yn cyrraedd y safon gofynnol yn 2010 yna fe fydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais am y Faner Las Ryngwladol unwaith eto yn 2011. Rydym o'r farn fod gan wobr mor bwysig a gydnabyddir yn rhyngwladol effaith gadarnhaol ar yr economi leol ac yn galluogi'r Cyngor i fesur ansawdd a safon traethau Gwynedd yn erbyn traethau eraill yn y Deyrnas Gyfunol. Er hynny, mae'n rhaid pwysleisio nad oes gan yr Uned Forwrol gyllideb ar gyfer ceisiadau traethau gan fod y gyllideb wedi ei nodi fel arbediad mewn gwariant yn 2008.

Mae canlyniadau'r Dŵr Ymdrochi am 2010 yn atodol er gwybodaeth, er mae'n rhaid pwysleisio y bydd samplau pellach yn cael eu cymryd yn ystod gweddill y tymor.

***8-*** ***<u>Cyflenwad Tanwydd Disel - £1,735 5000 litr o 10.000 bolard £1375 lleoli</u>***

***8.1*** Cafodd y tanc cyflenwad disel o harbwr Abermaw ei newid yn ystod dechrau'r haf. Roedd y tanc disel blaenorol yn gallu dal 10,000 litr o ddisel. Roedd y gallu i ddal swm mor fawr o ddisel yn broblemus yn enwedig o gofio bod angen sicrhau fod y tanc yn llawn yn ystod misoedd y gaeaf i leihau anwedd rhag ffurfio yn y tanc.

***8.2*** Gosodwyd tanc disel newydd am gost o £1,735 sy'n gallu dal 5,000 litr o ddisel coch. Bydd gostwng y stoc i'r hanner yn sicrhau nad yw'r stoc o ddisel yn mynd yn hen ac felly mae llai o berygl iddo gael

ei halogi gan anwedd.  Fe fydd hefyd gyfle pellach i werthu disel coch ar bris mwy cystadleuol gan y rhagwelir y bydd gwell trosiant disel yn y dyfodol.

***8.3*** Mae gwerthiant disel coch yn Abermaw yn gymharol isel o'i gymharu gyda mannau eraill.

| Mis | **Abermaw** | Aberdyfi | Porthmadog | Hafan |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill | **182** | 335 | 135 | 16,108 |
| Mai | **98** | 1282 | 867 | 30,537 |
| Mehefin | **234** | 517 | 452 | 36,621 |
| Gorffennaf | **157** | 420 | 696 | 22,046 |
| Awst | **378** | 831 | 782 | 43,570 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **1,049** | **3,385** | **2,932** | **148,882** |